AELOD SENEDDOL DROS YNYS MÔN

# Virginia CROSBIE





Ionawr 2024

Y wybodaeth ddiweddaraf am waith Virginia ar Ynys Môn a San Steffan

virginiacrosbiemp | Y newyddion diweddaraf yn **virginiacrosbie.co.uk**

# Eich Llais wrth wraidd Llywodraeth

### Fy Mlaenoriaethau Dros Ynys Môn

1. CREU PORTHLADD RHYDD
2. Cyflawni Niwclear Newydd
3. Swyddi Lleol i Bobl Leol
4. Brwydro am drydedd pont dros y Fenai
5. Annog sero net o Ynys Ynni
6. Gwella mynediad at iechyd

## Cyflawni Porthladd Rhydd Ynys Môn




**Roedd porthladdoedd rhydd yn ymrwymiad etholiad Ceidwadol y gweithredom arno pan enillom yr etholiad yn 2019. Roedd hefyd yn un o fy ymrwymiadau personol i etholwyr Ynys Môn.**

Fel eich llais wrth wraidd y Llywodraeth honno rwyf wedi llwyddo i siarad yn uniongyrchol â Gweinidogion a chydweithwyr er mwyn sicrhau bod Ynys Môn wedi ennill statws Porthladd Rhydd.

Ym mis Rhagfyr 2020, sefydlais Gonsortiwm Cynigion Porthladd Rhydd Ynys Môn gan wahodd rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys Stena, Prifysgol Bangor, M-SParc a Chyngor Ynys Môn i ddechrau paratoi ein cais. Nid oedd y gystadleuaeth ar gyfer porthladdoedd rhydd Cymru wedi cael ei hagor hyd yn oed ond roeddwn eisoes yn paratoi Ynys Môn ar gyfer llwyddiant.

A thair blynedd yn ddiweddarach gallwn weld ffrwyth fy llafur cynnar. Cyhoeddodd y Llywodraeth bod cais Ynys Môn am statws porthladd rhydd wedi llwyddo ac ar ôl misoedd lawer o waith caled mae Stena Line a Chyngor Ynys Môn wedi cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol i'w gymeradwyo.

Porthladd Rhydd Ynys Môn yw dechreuad ein hadferiad economaidd. Amcangyfrifir y bydd yn denu hyd at 13,000 o swyddi newydd ledled Gogledd Cymru ac yn dod â gwerth £1bn o fuddsoddiad.

Yn y misoedd nesaf byddwn yn dechrau gweld cyfleoedd newydd yn codi ym mharthau trethi a thollau dynodedig y porthladd rhydd: y Parc Ffyniant a Pharc Cybi yng Nghaergybi, M-SParc yng Ngaerwen a Rhosgoch ger Amlwch.

Nid y parthau hynny'n unig fydd yn elwa, fodd bynnag: Bydd statws Porthladd Rhydd yn berthnasol i'r Ynys gyfan. Daw'n fwy deniadol ac effeithlon o ran treth i redeg busnes yma – p'un a yw'ch busnes eisoes wedi sefydlu ar Ynys Môn neu eich bod yn awyddus i sefydlu gweithrediadau yma.

Am dair blynedd, bûm yn sgwrsio â chwmnïau a dangos iddynt y cyfleoedd fyddai gan borthladd rhydd ar Ynys Môn i'w cynnig. Mae nifer eisoes wedi cofrestru ar gyfer fy ymgyrch Swyddi Lleol i Bobl Leol. O wneud hynny, maent wedi ymrwymo i roi'r cyfleoedd a'r hyfforddiant sy'n angenrheidiol i drigolion lleol gael eu cyflogi yn y swyddi newydd a grëir yma.

Mae 2024 yn argoeli i fod yn flwyddyn anhygoel ar gyfer Ynys Môn ac rwy'n edrych ymlaen yn arw at barhau gyda'm gwaith i sicrhau buddsoddiad a swyddi mawr eu hangen yma.






### FFEITHIAU AM BORTHLADDOEDD RHYDD

1. Ynys Môn wedi ennill statws porthladd rhydd.
2. Rhagolwg buddsoddiad o £1bn.
3. 13,000 o swyddi newydd yng Ngogledd Cymru.
4. Yn cynnwys yr Ynys gyfan.
5. Swyddi Lleol i Bobl Leol.

## Cysylltwch ynghylch

- Unrhyw broblem neu bryder lleol
- Eich straeon o lwyddiant, arwyr, digwyddiadau neu fusnesau lleol
- Ffyrdd y gallwch fy nghefnogi wrth i mi weithio i ddenu newid cadarnhaol i Ynys Môn
- I ddweud helô a chyflwyno eich hun

### Dewch i ni gydweithio i wella Ynys Môn

Treuliwch ddau funud yn llenwi fy holiadur. Dyma'ch cyfle i ddweud wrthyf yr hyn sy'n bwysig i chi a'ch cymuned **Virginiacrosbie.co.uk/survey**

Conservatives
Gweithredu dros Ynys Môn

**Ffôn:** 01407 470747
**Ebost:** virginia4ynysmon@gmail.com.
facebook.com/VirginiaCrosbieMP | virginiacrosbie.co.uk

Nid yw arian y trethdalwr wedi cyfrannu at argraffu a dosbarthu'r pamffled hwn

Argraffwyd gan WO Jones (Argraffwyr) Ltd, Llangefni, LL77 7JA

Hyrwyddwyd gan Jenna Evans, ar ran Virginia Crosbie AS, y ddau o Comodore House, Parc Busnes Gogledd Cymru, Abergele, LL22 8LJ




## SEMINAR PORTHLADD RHYDD

Dydd Gwener 8 Mawrth 6-8pm

Canolfan Dreftadaeth, Porthaethwy

Cofrestrwch i fynychu y digwyddiad am ddim hwn trwy fy ngwefan www.virginiacrosbie.co.uk/events.

# Llais Ynys Môn yn San Steffan

**Roeddwn wrth fy modd bod Datganiad Hydref y Canghellor wedi cyfeirio ataf pan gyhoeddodd y byddai'n cynyddu rhyddhad treth ar gyfer porthladdoedd rhydd o bum mlynedd i ddeng mlynedd. Mae hyn yn golygu bydd gan fusnesau ddwywaith yr amser i fanteisio ar fuddion porthladd rhydd.**

Bûm yn lobïo'r Canghellor am fisoedd i wireddu'r newid hwn ac, o wneud hynny, mae wedi rhoi'r gobaith y bydd Porthladd Rhydd Ynys Môn yn fwy deniadol fyth i ddarpar fuddsoddwyr. Bydd hefyd yn golygu bydd gan gwmnïau sy'n sefydlu yma fwy o amser i ymgorffori eu hunain yn y gymuned leol a datblygu'r gweithlu lleol.

Fel eich cynrychiolydd etholedig rwy'n falch o roi llais i chi yn San Steffan sydd â mynediad at benderfynwyr y DU fel y gallaf sicrhau bod Ynys Môn yn wirioneddol elwa o gael Aelod Seneddol Ceidwadol.

## FY NGWAITH MEWN RHIFAU

**21,300**
O achosion wedi'u hymdrin

**450**
o gwestiynau a llythyrau at Weinidogion

**377**
o gyfraniadau llafar yn ystod Achosion Seneddol

**300**
o sylwadau am Ynys Môn yn y Senedd

**£83m**
o gyllid gan Lywodraeth y DU wedi'i neilltuo i Ynys Môn

**20**
Gweinidog yn ymweld ag Ynys Môn a dau Brif Weinidog



*"Roedd Graihagh mor falch o fod yn enillydd yng nghystadlaethau Cerdyn Nadolig Virginia. Mae'n llwyddiant gwirioneddol iddi wybod bod ei dyluniad wedi cael lle ar waliau Downing Street. Roedd hi wrth ei bodd pan ymwelodd Virginia â'r ysgol i gwrdd â hi a chyflwyno ei gwobr."* Mam falch Graihagh

*"Hoffwn ddiolch i Virginia a'r holl dîm am ddelio gyda fy achos. Rwy'n amau na fyddai pethau wedi symud ymlaen heb eich ymyrraeth."* Mrs Culshaw, Cemaes

*"Mae Virginia a'r Tîm bob amser yn ymateb ac yn gwneud i mi deimlo fy mod yn cael fy nghlywed a'm cefnogi." "* Shazz, Llangefni

*"Hoffwn nodi diolch a gwerthfawrogiad y cwpwl, y teulu a mi fy hun am yr holl waith caled a wnaeth Virginia Crosbie a'i thîm o gydweithwyr i ddatrys y broblem a chael canlyniad llwyddiannus yn achos y gwrthodiad Visa."*
Mr Owens, Porthaethwy

*"Mae'n rhyddhad enfawr ar ôl cael trafferth ers nifer o flynyddoedd ac rwy'n sicr na fyddai wedi digwydd heb ymyrraeth Virginia."* David, Caergybi

# Awyddus i gymryd rhan?

**Mae gen i gysylltiadau cryf â busnesau a chymunedau lleol ac felly, mae'n hynod bwysig i mi bod trigolion lleol yn cael y cyfle i ddeall yr hyn mae Porthladd Rhydd Ynys Môn yn ei olygu iddyn nhw.**

Dyna'r rheswm i mi gynnal pedair Seminar Porthladd Rhydd rhad ac am ddim dros y chwe mis diwethaf, gyda rhagor ar y gorwel.

Yn y seminarau hyn mae tîm o arbenigwyr yn egluro'r hyn mae Porthladd Rhydd Ynys Môn yn ei olygu a sut fydd pawb ar hyd a lled Ynys Môn yn elwa ohono. Maent yn amlinellu'r cerrig milltir rydym yn anelu atynt, trafod sut rydym yn cydweithio â busnesau a darparwyr addysg i ddatblygu sgiliau lleol, ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gan bobl.

Hyd yma, mae fy seminarau wedi'u cynnal yn Llangefni, M-SParc, Caergybi ac fel un o'm digwyddiadau Facebook Live y gallwch ei wylio ar fy sianel YouTube ar **https://youtu.be/tIuJ21E-WjI.**

Byddai'n hyfryd eich gweld chi yn fy Seminar Porthladd Rhydd nesaf ddydd Gwener 8 Mawrth 6-8pm yn Amgueddfa Treftadaeth y Fenai ym Mhorthaethwy. Cofrestrwch i fynychu'r digwyddiad rhad ac am ddim hwn drwy fy ngwefan **www.virginiacrosbie.co.uk/events.**

A hoffech chi gael y newyddion diweddaraf am fy ngwaith dros Ynys Môn?

**Cofrestrwch i dderbyn fy e-gylchlythyr yn rhad ac am ddim yn: virginiacrosbie. co.uk/ newsletter**